Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yn ymwneud â Chymru sy'n deillio o'r Mesur Cydraddoldeb (Mesur Senedd y DU)**

## Cyflwyniad

1. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn llywodraeth Cymru i gyfrif.

2. Dros ddegawd gyntaf datganoli mae Cymru wedi cymryd camau mawr ymlaen ym maes cydraddoldeb ac wedi sefydlu Swyddfa'r Comisiynydd Plant yng Nghymru a'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru ymhlith pethau eraill. Hefyd mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal ei drafodion, yn unol â'r egwyddor y dylid trin yr iaith Gymraeg a Saesneg yn gyfartal[1], cyhyd ag sy'n ymarferol bosibl.

3. Nid yw cyfle cyfartal yn fater sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru ar hyn o bryd; fodd bynnag, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau yr ymarferir eu swyddogaethau gyda dyledus sylw ar yr egwyddor y dylai cyfle cyfartal fod ar gael i bawb[2].

4. Mae Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yw "ystyried y dyletswyddau perthnasol a gynhwyswyd yn y Ddeddf ac a osodwyd ar y Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn ac i gyflwyno adroddiadau ar y dyletswyddau perthnasol hynny"[3]. Bydd y Pwyllgor yn craffu'n aml ar waith Gweinidogion Cymru ac ar effaith eu polisïau ar sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru.

## Cefndir

5. Croesawa Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynnwys y Mesur Cydraddoldeb (Mesur Seneddol) yn rhaglen ddeddfwriaethol Seneddol 2008-09. Mae'r Pwyllgor yn ymfalchïo bod y Mesur Seneddol yn gwneud yn eglur ac yn cydgyfnerthu deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli a'i fod yn ehangu'r priodoleddau a warchodir.

---

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Cymal 35 (1)
[2] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Cymal 77 (1)
[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 17

6. Oherwydd cyfyngiadau amser, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i'r Mesur, fel y cyhoeddwyd ar 27 Ebrill 2009, i ymchwilio i rai o oblygiadau'r Mesur ar gyfer Cymru. Ar 2 Mehefin, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer fach o'r prif ddeiliaid diddordeb: y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Anabledd Cymru; Stonewall Cymru; ac Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru. Yr oedd materion a ddaeth i'r amlwg yn eu tystiolaeth yn bwydo sesiwn graffu arall gyda Brian Gibbons AC, y Gweinidog yng Nghymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 16 Mehefin.

**Materion ac Argymhellion**

7. Daeth y materion canlynol i'r amlwg o'r dystiolaeth a gafwyd, ac fe hoffai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal pe bai'r argymhellion canlynol yn cael eu hystyried pan fo'r Mesur Cydraddoldeb (Mesur Seneddol) ar ei hynt trwy'r Senedd.

**Mater 1 – Rhestr o Awdurdodau y mae'r Ddyletswydd Sector Cyhoeddus ynghylch Anghydraddoldeb Cymdeithasol-Economaidd yn eu cynnwys**

8. Noda'r Pwyllgor bod y ddyletswydd sector gyhoeddus ynghylch anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd yn berthnasol i Weinidogion i'r Goron, y mwyafrif o adrannau'r llywodraeth a chyrff eraill yn Lloegr. Mae'n bryderus, fodd bynnag, nad oes unrhyw gyrff Cymreig wedi'u rhestru yn Rhan 1 Cymal 1 ar hyn o bryd. Mynega hyn nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff Cymreig ystyried gostwng anghydraddoldeb cymdeithasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol.

9. Cred y Pwyllgor y dylai Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru gael eu henwi, fel eu bod hwythau hefyd yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sector gyhoeddus ynghylch anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau yng Nghymru. Byddai'r dull gweithredu hwn yn gyson â gallu Gweinidogion Cymru, drwy Reoliadau, i ychwanegu awdurdodau yng Nghymru neu i'w tynnu oddi ar y rhestr yng Nghymal 1 o'r Mesur Seneddol.

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael eu cynnwys yn y rhestr awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd y mae eu manylion i'w gweld yn Rhan 1 Cymal 1 o'r Mesur Seneddol.**

**Mater 2 – Rhestr o Awdurdodau Cyhoeddus yn Atodlen 19**

10. Noda'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal nad yw'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn Atodlen 19 yn gynhwysfawr. Teimla'r Pwyllgor yn gryf y dylai'r rhestr yn Atodlen 19 fod mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl ac mae'n

bryderus, os na fydd awdurdodau cyhoeddus ychwanegol yng Nghymru yn cael eu hychwanegu yn ystod hynt y Mesur trwy'r Senedd y gall hyn arwain at oedi hir i'w hychwanegu yn ddiweddarach.

**Argymhelliad 2**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu cynnwys yn y rhestr o awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 19.**

**Mater 3 – Caniatâd i Ddiwygio'r Rhestr yng Nghymal 1 ac Atodlen 19 Rhan 2**

11. Mae'r Pwyllgor yn bryderus ynglŷn â'r broses y byddai Gweinidogion Cymru yn gorfod mynd trwyddi i ofyn caniatâd gan Weinidog o'r Goron er mwyn diwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yng Nghymal 1 ac Atodlen 19 Rhan 2. Pan holwyd ef gan y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog yng Nghymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol "bod achos deallusol cryf dros ganiatáu i'r materion hyn gael eu penderfynu yng Nghymru"[4]. Cadarnhaodd y Gweinidog yng Nghymru hefyd nad oedd unrhyw fframwaith i ddatrys gwrthdaro ynghylch diwygiadau i'r rhestr. Mae'r Pwyllgor o'r farn, yn unol ag ysbryd datganoli ac er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd, y dylai'r Mesur Seneddol drosglwyddo'r grym i ddiwygio'r rhestr i Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad 3**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Cymalau 2(4) a 146(2) yn cael eu diwygio, felly wrth ddiwygio'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yng Nghymal 1 ac Atodlen 19 Rhan 2, y gall Gweinidogion Cymru roi gwybod yn unig i Weinidog o'r Goron yn hytrach na chael ei gydsyniad.**

**Mater 4 – Plant a Phobl Ifanc**

12. Mae'r Pwyllgor yn bryderus, wrth fod oedran yn cael ei gyflwyno fel priodoledd a warchodir yn y Mesur Seneddol, y caiff plant a phobl ifanc o dan 18 oed eu heithrio o ddarpariaethau'r Mesur mewn perthynas â nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhian Davies, Prif Weithredwr Anabledd Cymru, y dylent "hwy [plant anabl] gael yr un cyfleoedd, hawliau mynediad a hawliau gwneud iawn ag unrhyw un arall".[5]

13. Ymhellach, dywedodd Kate Bennett, Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Gymru y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau preifat i rai dan 18 oed, oherwydd diffyg dyletswydd benodol ni all pobl ifanc ddweud bod gwahaniaethu yn eu herbyn wedi digwydd mewn siop, nac yn y

---

[4] Cofnod y Trafodion, t6, 16 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
[5] Cofnod y Trafodion, t14, 2 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl er enghraifft, ac y byddent, pe byddent yn oedolion, yn cael gwell gwasanaethau."[6]

14. Noda Aelodau'r Pwyllgor y gall pobl ifanc o dan 18 oed, weithio i ennill bywoliaeth a gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac maent o'r farn felly bod yr eithriad hwn yn gwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc oherwydd eu hoedran.

**Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod plant a phobl ifanc o dan 18 oed o ran nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau, yn cael eu cynnwys yn narpariaethau'r Mesur Seneddol.**

**Mater 5 – Aflonyddu gan Drydydd Parti**

15. Nododd y Pwyllgor bod cyfeiriadedd rhywiol yn briodoledd a warchodir gan y Mesur Cydraddoldeb (Mesur Seneddol); yr oedd Kate Bennett fodd bynnag wedi'i "synnu'n fawr"[7] nad yw'r Mesur yn ei gwneud yn anghyfreithlon i aflonyddu ar rywun oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol mewn amrywiol amgylchiadau. Cytuna'r Pwyllgor â'r farn hon ac awgryma y dylid diwygio'r Mesur Seneddol.

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Mesur Seneddol yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod aflonyddu gan drydydd parti oherwydd cyfeiriadedd rhywiol yn cael ei wneud yn anghyfreithlon.**

---

[6] Cofnod y Trafodion, t8, 2 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
[7] Cofnod y Trafodion, t8, 2 Mehefin 2009, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal